Am ddim drwy'r amser RHIFYN 17

# NEWYDDION Y TRAETHAU

Newyddion Traethau Castell-nedd Port Talbot / Gwanwyn Haf 2009

## Cynnydd sylweddol o ran sbwriel traeth!

Mae darnau bach o blastig sy'n bla ar draethau Prydain yn fygythiad i fywyd gwyllt morol, y mae grŵp cadwraeth wedi rhybuddio.

Mae arolwg gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol wedi nodi bod traethau'n gwella o ran glanweithdra, ond mae swm y sbwriel plastig yn achosi pryderon penodol.

Casglodd oddeutu 1,400 o wirfoddolwyr sbwriel oddi ar 150 o draethau ledled y DU i gael syniad o gyflwr diweddaraf glannau'r môr, sef Beachwatch 2000.

Mae cyfanswm swm y sbwriel wedi disgyn dwy flynedd yn olynol, ond mae'r gymdeithas yn dweud bod swm y plastig sy'n cael ei ollwng ar draethau'n achosi pryder mawr.

### AMDDIFFYN YR AMGYLCHEDD

Daethpwyd o hyd i oddeutu 10,000 o eitemau plastig, gyda llawer ohonynt yn belenni diwydiannol y gall pysgod ac adar y môr gamgymryd fel bwyd, sy'n eu rhoi mewn perygl o gael eu gwenwyno gan gemegau ynghlwm wrth y plastig.

parhad ar dudalen 2



## Gwnewch Safiad yn erbyn Sbwriel!

Rydym yn gollwng mwy o sbwriel nag erioed o'r blaen - er bod swm cyffredinol y sbwriel wedi lleihau, mae swm y gwastraff bron wedi dyblu dros y 12 mlynedd diwethaf, yn ôl arolwg.

Ar gyfartaledd, daethpwyd o hyd i ddau ddarn o sbwriel ar bob metr o draeth a astudiwyd mewn 358 o ardaloedd ledled y DU. Ac mae'r sbwriel o ganlyniad i unigolion naill ai'n gollwng sbwriel neu'n taflu eitemau anaddas i lawr y tŷ bach megis peli gwlân cotwm sy'n cyrraedd traethau yn y pen draw. Pecynnau creision a losin oedd y pedwerydd math mwyaf cyffredin o sbwriel ar draethau.

Dywedodd Emma Snowden, siaradwraig dros y Gymdeithas Cadwraeth Forol, "Dylai hwn fod yn fater amgylcheddol hawdd ei ddatrys ond eto i gyd nid yw'r neges yn cyrraedd y nod - rhaid i bawb gymryd cyfrifoldeb am roi pethau mewn bagiau a'u rhoi yn y bin ac nid eu rhoi i lawr y tŷ bach.



Ymgyrchwyr **SURFERS AGAINST SEWAGE** yn cryfhau eu neges 'dim sbwriel'. Maent yn dweud mai'r ymgyrch 'Return to Offender' yw "...ein cyfle i ddangos nad ydym yn derbyn bod y cefnfor a'r traeth yn ardal gollwng sbwriel.



Yr eitemau mwyaf cyffredin y daethpwyd o hyd iddynt yn arolygon Beachwatch yr MSC oedd darnau bach o blastig. Mae plastigion yn gyfrifol am 50% o'r holl sbwriel sy'n cael ei gofnodi. Maent yn aros yn ein hamgylchedd ac nid ydynt byth yn diflannu'n llwyr.



Mae NIFER Y BONION SIGARENNAU y daethpwyd o hyd iddynt ar ein traethau wedi cynyddu'n sylweddol. Gallai gwahardd smygu mewn mannau cyhoeddus arwain at gynnydd pellach yn swm y sbwriel bonion sigarennau.

# ARFERION ESGEULUS

**gan Urna Semper**
**a Trenz Pruca**

Ymwelwyr â'r traeth yw'r ffynhonnell fwyaf o sbwriel, ond mae'r sbwriel hefyd yn dod o gychod pysgota, llongau nwyddau ac eitemau megis ffyn gwlân cotwm sy'n cael eu rhoi i lawr y tŷ bach.

Meddai cyfarwyddwr cadwraeth y Gymdeithas Cadwraeth Forol, Sam Pollard, "Rydym wrth ein boddau i weld bod lefelau sbwriel wedi gostwng am ail flwyddyn yn olynol ac rydym yn gobeithio y bydd y duedd hon yn parhau.

"Ond rhaid i ni, fel unigolion, ddiogelu'r amgylchedd a bywyd gwyllt drwy fod yn ofalus gyda'n sbwriel."

Ymysg y sbwriel a gasglwyd yn yr arolwg hwn roedd drws oergell, pêl loteri rhif 49 a chwdyn o siampŵ a oedd yn dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn cyflwyno arian degol 30 mlynedd yn ôl.

Yn ôl ymgyrchwyr, mae swm y sbwriel y daethpwyd o hyd iddo ar draethau'r DU yn 2001 ychydig yn is na'r ddwy flynedd flaenorol.

Ond mae hyd yn oed y lefelau gostyngol yn annerbyniol, yn ddiolwg ac yn beryglus i fywyd gwyllt.

Mae sbwriel morol ar agenda Cynhadledd Weinidogaethol Môr y Gogledd, sy'n agor yn Norwy ar 20 Mawrth.

Disgwylir cytuno ar angen brys i leihau'r difrod y mae sbwriel yn ei achosi.


## PROFIAD PERYGLUS

Roedd dwysedd cyfartalog sbwriel yn is nag ym 1999 a 2000, ond dywedodd yr MCS fod y lefelau y daethpwyd o hyd iddynt yn annerbyniol, ac yn bygwth creaduriaid y môr yn ogystal â difetha harddwch yr arfordiroedd.

Meddai Karen Riley o'r MCS, "Mae swm y sbwriel a gasglwyd yn Beachwatch 2001 yn dangos gostyngiad o 11.5% ar ffigurau'r llynedd.

"Er bod hwn yn newyddion calonogol, mae'r lefel hon yn dal yn uwch na'r lefel a gofnodwyd ym 1994. Mae ffordd bell i fynd i sicrhau bod ein traethau'n lân ac yn fannau diogel i bobl a bywyd gwyllt drigo ynddynt."






Y prif eitemau o sbwriel y daethpwyd o hyd iddynt yn ystod Arolwg Beachwatch MCS 2001.

## ELLEN MACARTHUR

Mae'r iotwraig Ellen MacArthur wedi ysgrifennu rhagair i adroddiad Beachwatch.

Yn ystod ras Vendée Globe y llynedd, tarodd ei chwch Kingfisher wrthrych o dan y dŵr, rhyw gynhwysydd o bosib, a chosodd ddifrod difrifol i gorff y cwch.

Dywedodd ar ôl y digwyddiad, "Ar y gorau, roedd y trawiad wedi rhoi'r gorau i'm cyfle o ennill y ras; ar y gwaethaf, gallai fod wedi anablu neu hyd yn oed suddo'r cwch.

"Roeddwn i'n lwcus. Roedd y digwyddiad wedi fy ngwneud yn ymwybodol o swm y sbwriel yn ein moroedd a'n traethau."

## DANNEDD GOSOD A DRAFERS

Dywedodd Karen Riley wrth Newyddion y BBC Ar lein, "Mae llawer o'n hymgyrchoedd cynyddu ymwybyddiaeth wedi'u hanelu at dwristiaid er mwyn ceisio eu hannog i glirio'u llanast.

"Mae'r rhan fwyaf o bobl yn y diwydiannau llongau a physgota yn gwneud eu gorau glas, er nad yw rhai'n sylweddoli canlyniadau eu gweithredoedd o hyd.

"Gall sbwriel faglu creaduriaid y môr - rhwydi wedi'u taflu ymaith, er enghraifft - a gall eu lladd mewn ffyrdd eraill.

"Weithiau mae crwbanod y môr yn camgymryd bagiau plastig a balwnau am sglefrod môr, a gallant lwgu ar ôl eu llyncu.

"Rwy'n gobeithio y bydd Cynhadledd Môr y Gogledd yn ei gwneud hi'n haws gosod dirwyon sydd eisoes yn bodoli ar bobl sy'n gollwng sbwriel ac sy'n difetha ein traethau."

Roedd eitemau eraill y daethpwyd timau Beachwatch o hyd iddynt yn cynnwys dannedd gosod, pâr o bants, sawl cwdyn o faw cŵn a bŵmerang - na ddaeth yn ei ôl.

